





“Mae fy nghefndir cymdeithasegol yn amhrisiadwy yn fy ngwaith o ddydd i ddydd. Heb os nac onibai, mae'n sylfaen wych ar gyfer iechyd cyhoeddus.”

Dr Catherinne Hefferman




# Cymdeithaseg

## Pam astudio Cymdeithaseg?

Astudiaeth o gymdeithas yw cymdeithaseg. Wrth ddweud hynny, rydym yn golygu'r holl ddylanwadau sy'n gwneud i ni ymddwyn mewn ffyrdd penodol. Mae cymdeithasegwyr yn ceisio deall ymddygiad dynol ac, er mwyn gwneud hynny, maent hefyd yn ceisio deall sut mae pobl eraill yn effeithio arnom ni.

Ydych chi erioed wedi meddwl am yr holl hanes sy'n gefndir i'r materion pwysig mewn cymdeithas? Ydych chi erioed wedi meddwl am y newidiadau mewn technoleg a'r effaith maent yn ei gael? Pam mae gennym ni deuluoedd? Pam nad yw pobl gyfoethog a phwerus bob amser yn cael eu cosbi am ymddygiad troseddol? Os oes gennych chi ddiddordeb mawr yn ymddygiad pobl eraill a pham rydyn ni'n ymddwyn mewn ffyrdd arbennig, yna cymdeithaseg yw'r pwnc i chi.

Mae Cymdeithaseg yn bwnc hynod o ddiddorol i bobl sydd â meddyliau chwilfrydig. Bydd yn eich hyfforddi i ateb cwestiynau 'beth', 'sut' a 'pham' am gymdeithasau dynol. Byddwch yn dysgu amrywiaeth o sgiliau gan gynnwys; cefnogi dadleuon gyda thystiolaeth berthnasol, sut i ymchwilio a gwerthuso gwybodaeth a meddwl yn feirniadol. Mae Cymdeithaseg yn agor llwybrau tuag at amrywiaeth wych o yrfaoedd diddorol.

## Gofynion y cwrs

Bydd ennill gradd B mewn Saesneg a Mathemateg yn sicrhau lle i chi ar y cwrs hwn. Efallai y bydd yn bosib i chi ddilyn y cwrs gyda gradd C yn y pynciau hyn ar ôl cael sgwrs gyda'r Pennaeth Adran a Phennaeth y Chweched.

## Manylion y cwrs a'r dulliau asesu

### UG

**Uned 1 - Caffael Diwylliant** (Teuluoedd a Diwylliant)
Arholiad Ysgrifenedig 1 awr 15 munud
15% o'r cymhwyster

**Uned 2 - Deall Diwylliant** (Addysg ac Ymchwil)
Arholiad ysgrifenedig 2 awr
25% o'r cymhwyster

### Uwch

**Uned 3 - Deall Grym a Rheolaeth (Trosedd a Gwyredd)**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr
25% o'r cymhwyster

**Uned 4 - Anghydraddoldeb Cymdeithasol a Dulliau Cymhwysol o Ymchwilio Cymdeithasegol**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 15 munud
35% o'r cymhwyster

## Sgiliau a ddatblygir a swyddi posibl

Mae'r sgiliau rydych yn eu dysgu mewn cymdeithaseg yn hawdd iawn i'w gwerthu ac yn eich galluogi i ddeall y byd o'ch cwmpas. Mae damcaniaethu cymdeithasegol yn eich helpu i feddwl yn feirniadol gan ei fod yn eich cyflwyno i sawl ffordd wahanol o edrych ar y byd cymdeithasol – dyma rywbeth y mae mwy a mwy o gyflogwyr yn chwilio amdano.

Mae astudio cymdeithaseg yn eich galluogi i ddatblygu sgiliau cyfathrebu, sgiliau rhyngbersonol, sgiliau dadansoddi a sgiliau arwain. Dyma bwnc sy'n cynnig cefndir deallusol cryf, yn ogystal â sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer sawl gyrfa e.e. Heddlu, Busnes, Addysg, Gwasanaethau Iechyd a Lles, Cysylltiadau Cyhoeddus, Newyddiaduraeth, Gwleidyddiaeth, Y Gyfraith, Troseddeg, Ymchwil a Gweinyddiaeth.